# Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Blaenraglen Waith Strategol
## Mai 2005 - Rhagfyr 2006

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn pennu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y 18 mis nesaf. Fe'i hategir gan raglenni manwl sy'n ymdrin ag oddeutu tri mis ar y tro.

**Portffolio'r Pwyllgor**

***2.*** Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio Gweinidog y Cynulliad:

- Addysg feithrin ac addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru;
- Safonau addysg ysgol yng Nghymru, gan gynnwys gwaith Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru);
- Trefniadaeth ysgolion Cymru, gan gynnwys cymeradwyo trefniadau i uno ysgolion neu i'w cau;
- Cadw llygad ar awdurdodau addysg lleol Cymru;
- y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru;
- Pob mater sy'n ymwneud â disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- Holl waith Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, ynghyd â materion sy'n ymwneud â chymwysterau academaidd yn gyffredinol;
- Grantiau cyfalaf ar gyfer ysgolion Cymru;
- Safonau dysgu yng Nghymru, gan gydweithio â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Arfarnu athrawon Cymru, ond nid eu tâl a'u hamodau gwaith;
- Polisïau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru;
- Holl waith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa);
- Pwerau sy'n ymwneud â ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Neddf Addysg Uwch 2004;
- Polisïau gyrfaoedd, gan gynnwys gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru;
- Gwasanaethau ieuenctid a materion sy'n ymwneud ag ieuenctid yn gyffredinol;
- Darparu ac ategu hyfforddiant seiliedig ar waith, a mathau eraill o hyfforddiant galwedigaethol, yng Nghymru;
- Arolygu darparwyr hyfforddiant a chwmnïau'r gwasanaeth gyrfaoedd; a
- Goruchwylio gwaith Comisiynydd Plant Cymru.

**3.** Amlinellir **cyfrifoldebau'r Pwyllgor** yn y Rheolau Sefydlog:

“9.7. Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc:

i. cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt a'r meysydd y cafodd y Gweinidog gyfrifoldebau eraill drostynt (ac eithrio rheoli busnes y Cynulliad a'i faterion ariannol a materion sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol);
ii. cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, rhaid i bob Pwyllgor Pwnc hefyd:

i. cynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni'i swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;
ii. rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;
iii. cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);
iv. cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22; a
v. ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd a'r meysydd cyfrifoldeb."

**Nodau ac Amcanion y Pwyllgor**

4. Nod y Pwyllgor yw craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro'r broses o'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn gallu manteisio ar ystod o gyfleoedd addysg a dysgu gydol oes. Cred y Pwyllgor mai addysg yw'r allwedd i fywydau llawn a chenedl lewyrchus.

5. Wrth adolygu a datblygu polisïau, bydd y Pwyllgor yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at greu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gost effeithiol ac sy'n cael eu rheoleiddio a'u harolygu yn briodol.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

6. Yn ystod cyfnod y flaenraglen waith hon, bydd ffocws strategol y Pwyllgor ar y materion isod. Y rhain, ynghyd â'i gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 9.7 a 9.8, fydd blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfodydd:

- Y camau i roi ar waith bolisïau sy'n deillio o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor ar gam cyntaf ei adolygiad o anghenion addysgol arbennig a oedd yn canolbwyntio ar nodi ac ymyrryd yn gynnar;

- Y camau i roi ar waith bolisïau sy'n deillio o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor ar ei adolygiad o gludiant i'r ysgol;

- Y fframwaith datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a'r camau i roi ar waith y cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw athrawon, law yn llaw â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

- Addysg Bellach, gan roi sylw arbennig i'r broses o roi ar waith system gynllunio ac ariannu genedlaethol ELWa ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16;

- Y camau i roi strategaeth Ymestyn Hawliau ar waith, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19;

- Addysg Uwch, gan roi sylw arbennig i gymorth i fyfyrwyr ac ailgyflunio;

- Iaith Pawb; cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch;

- Deddfwriaeth sylfaenol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei chyfeirio at y Pwyllgor;

- Is-ddeddfwriaeth y mae'r Pwyllgor yn dewis craffu arni neu y mae'r Pwyllgor Busnes yn ei chyfeirio at y Pwyllgor;

- Blaenoriaethau'r Gyllideb:
  Addysg Bellach: ehangu mynediad;
  Addysg Uwch: cymorth i fyfyrwyr ac ailgyflunio;
  Ysgolion: cynnal a chadw adeiladau a'u huwchraddio, a rhoi cytundeb llwyth gwaith athrawon ar waith;
  Iaith Pawb: cymorth ar gyfer athrawon i'w helpu i wella'u sgiliau Cymraeg;
  Anghenion Addysgol Arbennig: comisiynu gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith ar y cyd gan gyrff addysg a chyrff iechyd;

- Ystyried adroddiadau blynyddol:
  Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru (Estyn)
  Comisiynydd Plant Cymru

- Adolygiadau Polisi:
  Anghenion Addysgol Arbennig (Rhan 2): Asesiad Statudol
  Anghenion Addysgol Arbennig (Rhan 3): Pontio

- Craffu ar gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat perthnasol; gan gynnwys cynnal ymweliadau rapporteur:
  Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa)
  Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
  Estyn (Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru)
  ACCAC (Awdurdod Cwricwlwm, Cymwysterau ac Asesu Cymru)
  Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Gyrfa Cymru

**Y Cynlluniau Statudol**

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, ynghyd â'r cynllun datblygu cynaliadwy. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i ofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

Bydd y Pwyllgor yn cymryd i ystyriaeth argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd y Pwyllgor yn pwyso a mesur adroddiad ar gyfarfodydd rhwng y Gweinidog a'r Sector Gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 o Gynllun y Sector Gwirfoddol.